



Deddfwriaeth a Chanllawiau - Crynodeb

Deddfwriaeth/Canllawiau

Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed 2010

I'w ddisodli'n fuan gan weithdrefnau a chanllawiau newydd, Ymdrin ag Achosion Unigol (fersiynau oedolion a phlant) a bydd y ddogfen yn cael ei hychwanegu at Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru: gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb-codau

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae gan unigolion yr hawl i chwarae rhan lawn gydol y broses amddiffyn oedolion a gwneud penderfyniadau am eu diogelwch a'u lles, oni bai bod asesiad wedi dangos nad oes ganddynt y gallu meddyliol i wneud unrhyw benderfyniad penodol.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Mae gennych chi ddyletswydd gofal i weithredu os ydych chi'n:

- dyst i gamdriniaeth neu esgeulustod
- derbyn gwybodaeth am gamdriniaeth neu esgeulustod, neu gamdriniaeth neu esgeulustod a amheuir, yn cynnwys amheuron am ofal neu driniaeth oedolion sy'n wynebu risg
- amau camdriniaeth neu esgeulustod posibl.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

I'w ddisodli'n fuan gan weithdrefnau a chanllawiau newydd, Ymdrin ag Achosion Unigol (fersiynau oedolion a phlant) a bydd y ddogfen yn cael ei hychwanegu at Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru: gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb-codau

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Maent yn seiliedig ar yr egwyddor mai cyfrifoldeb pob unigolyn ac asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, a gydag oedolion a allai beri risg i blant, yw amddiffyn plant.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Mae gennych chi ddyletswydd gofal i weithredu os ydych chi'n:

- dyst i gamdriniaeth neu esgeulustod
- derbyn gwybodaeth am gamdriniaeth neu esgeulustod, neu gamdriniaeth neu esgeulustod a amheuir, yn cynnwys amheuron am ofal neu driniaeth plentyn
- amau camdriniaeth neu esgeulustod posibl.



Deddfwriaeth/Canllawiau

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 (UNCRC)

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae'r confensiwn yn cynnwys erthyglau sy'n egwyddorion cyffredinol:

- dim gwahaniaethu
- budd pennaf y plentyn
- yr hawl i fyw, goroesi a datblygu
- yr hawl i gael ei glywed
- yr hawl i gael ei amddiffyn.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Mae angen dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o ganlyniadau personol y plentyn a beth sy'n bwysig iddo. Dylai hawliau'r plentyn ddylanwadu fwyaf ar y dull a ddewisir a dylai ei les gorau fod yn ganolog.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Hawliau Dynol 1998

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn amddiffyn pawb yn y DU. Mae'r hawliau sy'n cael eu hamddiffyn yn cynnwys:

- yr hawl i fywyd a chael bywyd wedi'i amddiffyn
- yr hawl i ryddid a diogelwch
- yr hawl i wrandawriad teg
- yr hawl i barch at ohebiaeth, bywyd a chartref preifat a theuluol
- yr hawl i ryddid o ran crefydd a chred
- yr hawl i beidio â chael eich arteithio neu'ch trin mewn ffordd annynol neu israddol.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Gweithredu pan fydd hawliau'r bobl rydych chi'n eu cefnogi dan fgythiad, h.y. hysbysu'r person priodol.

Wrth ganfod beth sy'n digwydd i blentyn, mae'n hanfodol hefyd, hyd y bo'n ymarferol, ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r rheini â chyfrifoldeb rhiant, aelodau'r teulu a/neu ofalwyr.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae'r rhain yn datgan:

- y dylai pobl hŷn allu mwynhau hawliau dynol a rhyddid sylfaenol wrth fyw mewn unrhyw loches, cyfleuster gofal neu driniaeth, yn cynnwys parch llawn i'w hurddas, credoau, anghenion a phreifatrwydd ac i'r hawl i wneud penderfyniadau am eu gofal ac ansawdd eu bywydau
- y dylai pobl hŷn allu byw mewn urddas a diogelwch a bod yn rhydd o gael eu hecsbloetio, ac o gamdriniaeth gorfforol neu feddyliol.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Bod yn ymwybodol, hyrwyddo a chynnal yr hawliau hyn.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRP)

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae hwn yn cynnwys:

- plant ag anabledau i gael yr holl hawliau dynol a rhyddid sylfaenol ar yr un sail gyfartal â phlant eraill, yn cynnwys yr hawl i fynegi eu barn yn rhydd, gyda budd pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth (erthygl 7)
- mynediad cyfartal i'r amgylchedd adeiledig, trafnidiaeth, gwybodaeth a chyfathrebu, ac i'r holl rwystrau i'r uchod gael eu nodi a'u dileu (erthygl 9)
- byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned (erthygl 19).
- rhyddid mynegiant a barn, a mynediad at wybodaeth (erthygl 21)
- parch i gartref a'r teulu (erthyl 23)
- addysg (erthygl 24)
- cymhwyso ac adsefydlu (erthygl 26)
- gwaith a chyflogaeth (erthygl 27).

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Bod yn ymwybodol, hyrwyddo a chynnal yr hawliau hyn.



Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Cydraddoldeb 2010

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae'n diogelu unigolion rhag cael eu gwahaniaethu ar sail:

- anabled
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth (sy'n cynnwys bwydo ar y fron)
- hil
- crefydd a chred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Gweithredu pan fydd hawliau'r bobl rydych chi'n eu cefnogi dan fygythiad, h.y. hysbysu person priodol am unrhyw amheuan.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Diogelu Data 1998

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Diogelu preifatrwydd a chyfanrwydd data sydd gan fusnesau a sefydliadau eraill am unigolion.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Datgelu gwybodaeth os yw'n debygol o gynorthwyo gydag atal, canfod neu erlyn trosedd, ac os byddai methu â datgelu yn niweidiol i'r dibenion hynny.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), o fis Mai 2018

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Diogelu trefniadau rhannu data personol heb 'ganiatâd penodol'.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn cyflwyno dyletswydd ar bob sefydliad i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am fathau penodol o dorri amodau data ac, mewn rhai achosion, i unigolion.

Nid oes yn rhaid i chi hysbysu'r ICO oni bai bod y toramod yn debygol o beryglu hawliau a rhyddid unigolion – os, er enghraifft, y gallai arwain at wahaniaethu, niwed i enw da, colled ariannol, colli cyfrinachedd neu unrhyw anfantais economaidd neu gymdeithasol sylweddol arall.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae'r cytundeb hwn yn cadarnhau y dylai sefydliadau rannu dim ond y wybodaeth angenrheidiol a dim mwy, a dim ond gyda'r bobl sydd angen y wybodaeth, gyda chaniatâd yr unigolyn, ond y gallant rannu heb ganiatâd lle mae risg o gamdriniaeth neu niwed difrifol i'r unigolyn, neu eraill.

Mae canllawiau WASPI yn datgan: *"Ni ddylai staff betruso i rannu gwybodaeth bersonol er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol, mewn argyfwng neu mewn sefyllfaoedd lle mae bywyd yn y fantol. Os oes pryderon yn ymwneud â materion diogelu plant neu oedolion, rhaid dilyn y gweithdrefnau lleol perthnasol..."*

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Manylion sut gallech chi rannu gwybodaeth yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn hyderus.



Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Rhaid i'r rheini sy'n gweithio o dan y Ddeddf hon geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae llesiant yn cynnwys amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae'r Ddeddf yn nodi llwybrau oedolion a phlant ar gyfer diogelu.

Llwybr oedolion

Diffinio'r term "oedolyn sy'n wynebu risg" fel oedolyn sy'n:

- a)** cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso
- b)** y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio) ac
- c)** nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae'r term "sy'n wynebu risg" yn caniatáu ymyrraeth gynnar, gyda'r nod o amddiffyn pobl sydd angen cael eu hamddiffyn a helpu i atal camdriniaeth neu esgeulustod.

Mae'n rhoi dyletswydd ar sefydliadau partner yr awdurdod lleol, fel yr heddlu, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a'r gwasanaeth prawf, i hysbysu'r awdurdod lleol os yw'n amau bod oedolyn yn wynebu risg.

Mae gan awdurdodau lleol bŵer newydd i wneud ymholiadau os oes ganddynt achos rhesymol i amau bod oedolyn yn wynebu risg.

Os oes angen, gellir defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO) dan amgylchiadau eithriadol i gael mynediad at unigolyn i sicrhau bod asesiad priodol yn cael ei gynnal.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Hyrwyddo'r egwyddor bod diogelu yn fater i bawb.

Dylech hysbysu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol am oedolion sy'n wynebu risg.

Os oes gan 'bartner perthnasol' achos i amau bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg a'i fod yn ymddangos ei fod o fewn ardal yr awdurdod neu o fewn awdurdod ardal lleol arall, mae'n **rhaid** hysbysu'r awdurdod lleol am hynny.

Llwybr plant

Y diffiniad o "blentyn sy'n wynebu risg" yw plentyn:

- a)** sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a
- b)** y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Mae'n rhoi dyletswydd ar bartneriaid perthnasol yr awdurdod lleol i hysbysu'r awdurdod lleol os ydynt yn amau bod plentyn yn wynebu risg (yr heddlu, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth troseddwy'r ifanc).

Pan fydd plentyn wedi cael ei nodi fel un sy'n wynebu risg, cymerir camau dilynol drwy'r 'ddyletswydd i ymchwilio' gan yr awdurdod lleol fel sy'n ofynnol o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Os oes gan aelod o'r cyhoedd neu ymarferwr achos rhesymol i amau bod plentyn, yn cynnwys plentyn heb ei eni, yn wynebu risg, rhaid hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os oes pryderon dybryd am ddiogelwch plentyn neu drosedd yn erbyn plentyn, dylent gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ddi-oed i amddiffyn y plentyn / plant rhag risg o niwed difrifol.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Canllawiau Statudol – Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Canllawiau statudol ar ddiogelu o ran amddiffyn oedolion a phlant. Mae'n nodi'r dyletswyddau cyffredinol y mae'n rhaid eu cyflawni wrth weithio o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sut mae'r rhain yn cael eu cyflawni'n unol â'r egwyddorion llesiant a chanlyniadau personol.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Gwybod ble i ddod o hyd i hyn os oes angen.



Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Plant 1989 a 2004

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Rhoi dyletswydd ar bob asiantaeth i ddiogelu a hyrwyddo lles a llesiant plant sy'n cynnwys hysbysu am amheuron yn gynnar i annog camau ataliol.

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod achos rhesymol i amau bod y plenty:

- a) yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a
- b) y mae ganddo anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio)

bydd yr awdurdod lleol yn gwneud, neu'n caniatáu iddynt gael eu gwneud, yr ymholiadau hynny yr ystyriant sy'n angenrheidiol i'w galluogi i benderfynu a ddylent gymryd camau gweithredu i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn o dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

Mae Adran 47 yn nodi amgylchiadau penodol pan mae dyletswydd i wneud ymholiadau – pan gaiff awdurdod lleol ei hysbysu bod plentyn yn destun gorchymyn amddiffyn brys neu'n cael ei amddiffyn gan yr heddlu, neu pan fydd amheuaeth o niwed sylweddol.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Mae gennych gyfrifoldeb i gefnogi'r awdurdod lleol i wneud eu ymholiadau i niwed arwyddocaol

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae hyn yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, mynd ati i atal problemau a gweithio mewn ffordd fwy cydlynol. Mae'r Ddeddf yn pennu nodau llesiant.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Dod i adnabod y nodau llesiant.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Darparu fframwaith mwy syml ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n symud tuag at system a diwylliant sy'n rhoi mwy o ystyriaeth i effaith gwasanaethau gofal a chymorth ar fywydau a llesiant pobl.

Cyflwynodd Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n disodli Cyngor Gofal Cymru, y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am wella ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am gofrestru'r gweithlu a rheoleiddio hyfforddiant.

Mae Arolygiad Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn awr wedi newid ei enw i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Dod i adnabod unrhyw safonau neu ofynion sy'n gymwys i'ch lleoliad neu'ch rôl

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Diogelu hawliau unigolion sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau eu hunain (diffyg galluedd). Diogelu hawliau unigolion i wneud penderfyniadau annoeth.

Rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir ar ran unigolyn sydd â diffyg galluedd fod er budd pennaf yr **unigolyn**

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Gweithredu pan fydd hawliau'r bobl rydych chi'n eu cynorthwyo dan fygythiad h.y. rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth i berson priodol.



Deddfwriaeth/Canllawiau

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Amddiffyn hawliau pobl mewn cartrefi gofal neu ysbytai.

Caniatáu i ddefnyddio ataliaeth a chyfyngiadau – ond dim ond er lles yr unigolyn.

Caniatáu i amddifadu preswlydd neu glaf o'i ryddid pan nad oes ganddo'r gallu i roi caniatâd ar gyfer ei ofal a'i driniaeth, er mwyn ei gadw'n ddiogel rhag niwed.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Hysbysu am unrhyw achosion o golli rhyddid unigolyn ar gam.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Diwygiad i'r Ddeddf Iechyd Meddwl 2007

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae'n rhaid i ysbytai sicrhau bod cleifion o dan 18 oed, sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty gydag anhwylderau meddwl, yn cael eu cadw mewn amgylchedd sy'n addas i'w hoedran (yn amodol ar eu hanghenion).

Mae'n lleihau cyfyngiadau ar ryddid drwy atal pobl rhag cael eu dal yn orfodol, neu barhau i gael eu dal, oni bai fod triniaeth feddygol briodol a holl amgylchiadau eraill yr achos ar gael i'r claf hwnnw.

Mae'n cynnwys cleifion yn y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu gofal a thriniaeth sy'n briodol iddynt.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Codi'ch amheon ar unwaith.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Cyflwynwyd i ddiogelu gweithwyr cyflogedig sy'n poeni am gamymddwyn yn eu gweithle ac sydd am 'chwythu'r chwiban'. Mae'n berthnasol i'r rhan fwyaf o weithwyr cyflogedig ac yn cynnwys y rheini sy'n cael eu cyflogi dros dro neu drwy asiantaeth. Gall gweithiwr cyflogedig sy'n dioddef erledigaeth neu wahaniaethu mewn unrhyw ffordd oherwydd iddo 'chwythu'r chwiban' (gwneud 'datgeliad gwarchoddedig') fynd â'i gyflogwr i dribiwnlys cyflogaeth.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Gofalwch eich bod chi'n gwybod gweithdrefnau 'chwythu'r chwiban' eich sefydliad ac yn eu dilyn os oes angen.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllun fetio a gwahardd ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed, gan felly atal unigolion anaddas rhag gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Codi'ch amheon ar unwaith a gofalu'ch bod chi wedi cwblhau'r gwiriadau angenrheidiol.



Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Disodlodd hon y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Maent wedi uno i ffurfio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'n ehangu'r cysyniad o wirio unigolion cyn eu bod yn dechrau gweithgareddau rheoleiddiedig i gynnwys cyswllt heb oruchwyliaeth gyda phlant neu oedolion agored i niwed ac mae'r drefn o gyhoeddi tystysgrifau wedi newid.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Codi'ch amheuan ar unwaith a gofalu eich bod chi wedi cwblhau'r gwiriadau angenrheidiol.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar atal y problemau hyn, amddiffyn dioddefwyr a chynorthwyo'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan y materion hyn.

O dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid ddatblygu gwasanaethau cyson yn unol â strategaeth genedlaethol. Bydd rhaid i awdurdodau lleol adrodd ar sut maent yn mynd i'r afael â thrais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hardaloedd.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Dylech wybod sut mae 'cyfeirio' pobl at gymorth a dylech **'ofyn a gweithredu'** mewn perthynas â materion trais domestig.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Troseddu Difrifol 2015

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae dyletswydd orfodol i hysbysu am achosion o anffurfio organau atgenhedlu benywaidd (FGM) wedi'i chyflwyno gyda Deddf Troseddu Difrifol 2015. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a reoleiddir ac athrawon yng Nghymru roi gwybod i'r heddlu am achosion hysbys o FGM ymysg merched o dan 18 oed.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Mae'n ddyletswydd bersonol ar weithwyr proffesiynol cofrestredig ac yn gymwys os yw merch o dan 18 oed yn dweud wrthynt am FGM neu os ydynt yn gweld arwyddion o FGM. Dylid hysbysu am yr achos o fewn diwrnod fel rheol. Yna dylai'r heddlu a gofal cymdeithasol weithredu ar unwaith. Dylai unrhyw amheuan ynghylch FGM gael eu hysbysu fel mater diogelu.

Deddfwriaeth/Canllawiau

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Sut mae'n amddiffyn y bobl a gefnogwn

Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau penodol i roi sylw priodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Enw arall ar hon yw'r **ddyletswydd atal**.

Y gofynion arnoch os ydych chi'n dod yn ymwybodol o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Y nod yw atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth priodol.
